At: Rhieni/Gwarcheidwaid, Llywodraethwyr a Staff
Ysgol Gyfun Garth Olwg
Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Gofynnwch am:	**Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif**
Please Ask For:	
Rhif Est:	**01443 744227**
Telephone No:	
Ffacs:	**01443 744201**
Fax:	
E-Bost:	**CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk**
E-mail:	

Fy Nghyf: / My Ref:
Eich Cyf: / Your Ref:
Dyddiad: / Date: 2 Mawrth 2018

Annwyl Syr/Fadam,

CYNNIG I SEFYDLU YSGOL 'POB OED' (3-19 OED) NEWYDD AR GAMPWS GARTH OLWG

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 2 Hydref 2017 ynghylch yr uchod, hoffwn roi gwybod i chi bod y Cyngor wedi paratoi Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig.

Atodaf gopi papur o'r Hysbysiad er gwybodaeth i chi. Mae modd ichi gael copïau ychwanegol drwy gysylltu gan ddefnyddio'r cyfeiriadau post ac e-bost uchod, os oes angen.

Hefyd, mae modd gweld yr Hysbysiad wedi'i atodi ar wefan y Cyngor http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx
Fel arall, ewch i'r wefan www.rctcbc.gov.uk, cliciwch ar 'Dod yn rhan o bethau', yna 'Ymgynghoriadau' ac yn olaf 'Ymgynghoriadau ynglŷn ag ysgolion.'

Yn gywir

Esther Thomas
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Gwasanaeth Addysg, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Cau'r ysgolion canlynol sy'n cael eu cynnal gan Gyngor RhCT ar hyn o bryd:

- Ysgol Gyfun Garth Olwg, Main Road, Pentre'r Eglwys, Pontypridd CF38 1DX
- Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg, St Illtyds Road, Pentre'r Eglwys, Pontypridd CF38 1RQ

2. Sefydlu Ysgol Ganol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg newydd, i'w chynnal gan Gyngor RhCT ym Main Road, Pentre'r Eglwys, ar safle Campws Cymuned Garth Olwg, ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 19 oed.

Cynhaliodd Cyngor RhCT gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig, a barn Estyn ar gael ar ein gwefan http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx.

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion hyn ar 1 Medi 2019.

Y bwriad yw y dylai disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol uchod ar hyn o bryd drosglwyddo i Ysgol Ganol Garth Olwg newydd ar 1 Medi 2019, gan ddibynnu ar ddewis rhieni. Y bwriad yw i'r ysgol fod yn Ysgol Ganol Gymunedol cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgol Ganol Pob Oed 3-19 oed newydd yn cael ei chynnwys o fewn adeiladau'r ysgolion presennol, sy'n ffurfio rhan o Gampws mwy Cymuned Garth Olwg.

Cyngor RhCT fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol newydd, a fydd dim trefniadau ar gyfer bandio disgyblion.

350 o ddisgyblion fydd capasiti arfaethedig yr Adran Gynradd ar gyfer yr Ysgol Ganol newydd, yn ogystal â darpariaeth Feithrin ar gyfer o leiaf 50 o blant. 50 fydd y nifer derbyn ar gyfer plant 4 oed i'r Dosbarth Derbyn. Y capasiti arfaethedig ar gyfer yr Adran Uwchradd, 11-16 oed, fydd 900 o ddisgyblion, a 180 fydd y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 11 oed (Blwyddyn 7), fel bydd lle i 180 o ddisgyblion ar gyfer pob grŵp blwyddyn o flwyddyn 7 i 11. Bydd hyd at 170 o leoedd ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed, a 85 fydd y nifer derbyn ar gyfer myfyrwyr 17 oed (Blwyddyn 12).

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol gynradd, yr ysgol babanod neu'r ysgol iau berthnasol, os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i

1½ o filltiroedd cerdded o'r ysgol honno, a 2 filltir yn achos disgyblion ysgolion uwchradd. Ysgol y dalgylch, neu'r ysgol agosaf, ydy'r 'ysgol berthnasol'.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 29 Mawrth 2018. Dylai pob gwrthwynebiad gael ei anfon at y: Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ, e-bost CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk.. Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

Llofnod:

Esther Thomas
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dyddiad: 2 Mawrth 2018

Nodyn esboniadol ar y cynigion

Yn ddiweddar, mae Cyngor RhCT wedi cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynnig i greu ysgol Pob Oed 3-19 oed ar Gampws Cymuned Garth Olwg. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chreu trwy gau'r ysgolion Cynradd ac Uwchradd presennol sydd ar hyn o bryd ar y Campws yma, sef YG Garth Olwg (ysgol uwchradd) a YGG Garth Olwg (ysgol gynradd) ac agor darpariaeth ysgol Pob Oed newydd 3 i 19 oed, gan ddefnyddio adeiladau presennol y ddwy ysgol. Os bydd cytundeb, bydd yr ysgolion presennol yn cau ar 31 Awst 2019 a bydd yr ysgol newydd yn cymryd eu lle ar 1 Medi 2019.

Mae'r Campws Cymunedol hefyd yn cynnwys Canolfan Dysgu Gydol Oes, llyfrgell gyhoeddus, canolfan ieuenctid a meithrinfa gofal dydd, yn ogystal â chaeau chwaraeon awyr agored. Nid oes unrhyw newidiadau i'r cyfleusterau yma'n cael eu cynnig ar hyn o bryd.